

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

60/2022

DYDDIAD CYHOEDDI:

20/09/2022

Adolygiad tystiolaeth o elastigedd sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru

Teitl: Adolygiad tystiolaeth o elastigedd sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru

Is-deitl:

Awdur(on): Alma Economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2022). *Adolygiad tystiolaeth o elastigedd sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 60/2022.
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/adolygiad-tystiolaeth-o-elastigion-syn-berthnasol-i-ardoll-ymwelwyr-yng-nghymru>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ebost: ymchwil.gwasanaethaocyhoeddus@llyw.cymru

Cynnwys

Rhestr Termau	Error! Bookmark not defined.
1. Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
2. Methodoleg	Error! Bookmark not defined.
3. Canfyddiadau	Error! Bookmark not defined.
4. Casgliadau	Error! Bookmark not defined.

Rhestr Termau

Acronym/ Gair allweddol	Diffiniad
PED	<p>Mae elastigedd pris galw (PED) yn mesur ymatebolrwydd y galw am nwydd neu wasanaeth pan fydd ei bris yn newid. Fe'i diffinnir fel y newid canrannol yn y maint y gelwir amdano wedi'i rannu â'r newid canrannol yn y pris. Byddai PED o (-0.5) felly yn awgrymu bod cynnydd o 1 y cant ym mhpris nwydd neu wasanaeth yn arwain at ostyngiad o 0.5 y cant yn y galw. Mae gwerth negyddol ar gyfer PED yn dynodi gostyngiad yn y maint y gofynnir amdano pan fydd prisiau'n cynyddu, ac i'r gwrthwyneb. Yn ogystal, pan fo gwerth absoliwt y PED yn fwy nag 1, mae'r newid canrannol yn y galw yn fwy na'r newid canrannol mewn pris (galw elastig). Mae gwerth absoliwt sy'n llai nag un yn dynodi galw anelastig.</p>
YED	<p>Mae elastigedd incwm galw (YED) ar gyfer twristiaeth yn mesur ymatebolrwydd y galw twristaidd (allan neu i mewn) i'r newidiadau mewn incwm ymwelwyr. YED yw'r newid canrannol yn y maint y gofynnir amdano wedi'i rannu â'r newid canrannol mewn incwm. Byddai YED o 0.5 felly yn awgrymu bod cynnydd o 1 y cant mewn incwm yn arwain at gynnydd o 0.5 y cant yn y galw. Mae YED positif yn bodoli ar gyfer nwyddau a elwir yn "normal" sy'n golygu y byddai'r galw yn cynyddu wrth i'r incwm gynyddu. Gall nwyddau arferol fod yn "angenrheidiau" neu'n "nwyddau moethus". Mae gan angenrheidiau alw anelastig a gwerthoedd YED rhwng 0 ac 1, tra bod nwyddau moethus yn arddangos galw elastig a gwerthoedd YED sy'n fwy nag 1. Ar gyfer nwyddau ag YED negyddol, mae'r galw yn lleihau pan fydd incwm yn cynyddu, ac fe'u gelwir yn "nwyddau israddol".</p>

XED	<p>Mae elastigedd galw traws-bris (XED) yn mesur y newid yn maint y galw am nwydd mewn ymateb i'r newid ym mhris nwydd arall. Er enghraifft, byddai XED o (-1) ar gyfer dau nwydd yn awgrymu y byddai cynnydd o 1 y cant ym mhris Nwydd x yn lleihau'r galw am Nwydd y 1 y cant.</p> <p>O'r herwydd, mae XED yn debyg i PED, ond mae'n dangos y berthynas rhwng pâr o nwyddau neu wasanaethau gwahanol. Mae XED negyddol yn dynodi "nwyddau cyflenwol" sydd fel arfer yn cael eu defnyddio gyda'i gilydd, tra bod XED positif yn dynodi "amnewidion" y gellir eu defnyddio'n gyfnewidiol.</p> <p>Mae amrywiad ar XED, sef elastigedd amnewid Morishima (ME), fel y'i diffinnir yn Fleissig (2021a), yn disgrifio graddau'r amnewid yn y galw rhwng dau is-ddiwydiant am newid ym mhris is-ddiwydiant penodol. Mae ME positif yn dynodi bod yr is-ddiwydiannau yn amnewidion, tra bod ME negyddol yn dynodi cyfatebolrwydd.</p>
PES	<p>Mae elastigedd pris cyflenwad (PES) yn mesur sut mae maint nwydd neu wasanaeth a gyflenwir yn newid mewn ymateb i'w bris. Mae PES positif yn dynodi cynnydd yn y maint a gyflenwir pan fydd ei bris yn cynyddu, ac i'r gwrthwyneb. Mae gwerthoedd PES sy'n fwy nag 1 yn dynodi cyflenwad elastig ac mae gwerthoedd llai nag 1 yn dynodi cyflenwad anelastig. Felly byddai PES o 0.5 yn dangos y byddai cynnydd o 1 y cant ym mhris nwydd neu wasanaeth yn arwain at gynnydd o 0.5 y cant yn y cyflenwad.</p>

Mesur	Fformiwla	Gwerthoedd a dehongliadau
PED	$\frac{\% \text{ Newid yn y Maint y Gelwir Amdano}}{\% \text{ Newid yn y Pris}}$	<p> PED > 1: Galw elastig</p> <p> PED = 1: Galw elastig unedol</p> <p>0 < PED < 1: Galw anelastig</p> <p> PED = 0: Galw anelastig perffaith</p>
YED	$\frac{\% \text{ Newid yn y Maint y Gelwir Amdano}}{\% \text{ Newid mewn Incwm}}$	<p>YED > 0: Nwydd normal</p> <p>YED < 0: Nwydd israddol</p> <p>YED > 1: Nwydd moethus (incwm elastig)</p> <p>1 > YED > 0: Nwydd hanfodol (incwm anelastig)</p>
XED	$\frac{\% \text{ Newid yn y Maint y Gelwir Amdano o'r Nwydd } x}{\% \text{ Newid ym Mhris y Nwydd } y}$	<p>XED < 0: Effaith amnewidiad rhwng y ddau nwydd</p> <p>XED = 0: Dim amnewidiad na chyfatebolrwydd rhwng y ddau nwydd</p> <p>XED > 0: Cyfatebolrwydd rhwng y ddau nwydd</p>

PES	$\frac{\% \text{ Newid yn y Maint a Gyflenwir}}{\% \text{ Newid mewn Pris}}$	<p>PES > 1: Cyflenwad elastig</p> <p>PES = 1: Galw elastig unedol</p> <p>1 > PES > 0: Cyflenwad anelastig</p> <p>PES = 0: Cyflenwad anelastig perffaith</p>
------------	--	--

1. Cyflwyniad

Cyd-destun polisi

- 1.1 Mae'r economi ymwelwyr yn ffynhonnell bwysig o swyddi a thwf economaidd ledled Cymru. Uchelgais Llywodraeth Cymru yw tyfu twristiaeth er budd Cymru drwy gefnogi cymunedau lleol mewn ffordd sy'n gynaliadwy i dir ac amgylchedd Cymru, gan ddatblygu fframwaith sydd o fudd i ymwelwyr a dinasyddion fel ei gilydd.
- 1.2 Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 – a gynhaliwyd ar y cyd â Phlaid Cymru, fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredu – yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll ar ymwelwyr â Chymru.¹
- 1.3 Byddai cyflwyno ardoll o'r fath a'i defnyddio wedyn yn galluogi awdurdodau lleol i godi refeniw ychwanegol i'w ailfuddsoddi yn yr amodau sy'n gwneud twristiaeth yn llwyddiant. Byddai'r ardoll yn cael ei gweithredu fel treth leol gyda'r pwerau i godi'r ardoll yn ddewisol i awdurdodau lleol. Bydd hyn yn galluogi gwneud penderfyniadau yn lleol, yn unol ag anghenion cymunedau Cymreig.
- 1.4 Byddai'r ardoll yn berthnasol i'r rhai sy'n talu i aros dros nos o fewn ardal awdurdod lleol. Cynigir cyfleoedd am gyfraniadau ehangach ar effaith cost mathau eraill o weithgareddau ymwelwyr ar seilwaith lleol fel rhan o'r ymgynghoriad ar yr ardoll. Bwriedir i'r ardoll fod yn berthnasol i deithwyr busnes yn ogystal â thwristiaid, a chyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel ardoll ymwelwyr.

Rhesymeg ar gyfer yr astudiaeth hon

- 1.5 Mae'r astudiaeth hon wedi adolygu'n feiriadol y dystiolaeth ar gyfer yr elastigedd sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru, gan gynnwys pris, incwm, ac elastigedd galw traws-bris, ac elastigedd pris cyflenwad. Bydd allbynnau'r prosiect ymchwil hwn yn cefnogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol drwy:
 - hysbysu ymgynghoriad ffurfiol Llywodraeth Cymru ar y cynigion ar gyfer ardoll ymwelwyr sydd i'w lansio yn hydref 2022.
 - cefnogi dyluniad a datblygiad yr ardoll

¹ Yn seiliedig ar [Raglen ar gyfer Llywodraethu](#) Llywodraeth Cymru

- cynorthwyo awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau ynghylch gweithredu'r ardoll
- hysbysu'r Asesiad Effaith Integredig (IIA) a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) a fydd yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â chyflwyno Bil Ardoll Ymwelwyr i'r Senedd.

1.6 Nod yr ymchwil yw nodi ac asesu gwahanol fathau o ymatebion defnyddwyr i'r ardoll, darparu tystiolaeth ynghylch a yw defnyddio refeniw ardoll yn effeithio ar ymddygiad defnyddwyr neu ddarparwyr, a chanfod unrhyw amrywiadau yn y cynllun ardoll ar ymatebion o ran cyflenwad neu alw. Cyflwynir y cwestiynau ymchwil allweddol y mae'r astudiaeth hon yn mynd i'r afael â hwy yn fanwl yn y protocol Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth (ACD) yn Atodiad A.

Strwythur yr Adroddiad

1.7 Mae strwythur yr adroddiad sy'n weddill yn cynnwys y penodau a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn trafod y dull o gynnal yr astudiaeth hon, gan gynnwys y cwestiynau ymchwil, y strategaeth chwilio, a meini prawf cynhwysiant/eithrio yr ACD.
- Mae Pennod 3 yn manylu ar y mewnwleidiadau allweddol a gafwyd trwy weithredu'r protocol ACD. Mae'r adran wedi'i rhannu'n is-adrannau yn ôl y math o elastigedd, gydag isadran bellach yn crynhoi canfyddiadau'r adolygiad o lenyddiaeth lwyd (h.y., llenyddiaeth anacademaidd).
- Mae Pennod 4 yn cloi drwy grynhoi'r gwersi allweddol a ddysgwyd o'r ACD, gan gynnwys goblygiadau'r canlyniadau ar gyfer ardoll ymwelwyr yng Nghymru a bylchau tystiolaeth allweddol.

2. Methodoleg

- 2.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth (ACD) sy'n adolygu'r llenyddiaeth ar yr elastigeddau sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru. Mae'r dull ACD yn fethodoleg ymchwil a ddefnyddir yn gyffredin, sy'n galluogi ymchwilwyr i flaenoriaethu ac adolygu astudiaethau o gorff mawr o ffynonellau ar draws y llenyddiaeth academiaidd a llenyddiaeth lwyd, gan ddefnyddio dull tryloyw, wedi'i ddiffinio'n dda, y gellir ei ailadrodd.
- 2.2 Mae'r bennod hon yn nodi nodweddion y protocol ACD, gan gynnwys (i) cwestiynau ymchwil allweddol, (ii) y strategaeth chwilio am lenyddiaeth, a (iii) y meini prawf cynhwysiant/eithrio a ddefnyddiwyd i benderfynu a yw'r astudiaethau a ddefnyddiwyd yn berthnasol i gwestiynau ymchwil yr adolygiad tystiolaeth hwn (fel y manylir isod).

Datblygu'r protocol ACD

- 2.3 Datblygwyd y protocol ACD ar ddechrau'r adolygiad hwn, yn amlinellu amcanion allweddol yr adolygiad tystiolaeth, y strategaeth chwilio, meini prawf cynhwysiant ac eithrio, a meini prawf asesu ansawdd ar gyfer y llenyddiaeth a nodwyd. Mae'r protocol ACD llawn i'w weld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.
- 2.4 Cynlluniwyd y protocol ACD i nodi ac asesu tystiolaeth berthnasol o ansawdd uchel i fynd i'r afael â chyfres o gwestiynau ymchwil, gyda'r diben o lywio datblygiad ardoll ymwelwyr yng Nghymru. Mae'r ACD wedi targedu tystiolaeth adolygu i fynd i'r afael â'r pynciau canlynol:²
- Nodi amcangyfrifon o elastigeddau'r cyflenwad a galw am lety a thwristiaeth ehangach.
 - Deall y ffactorau a all achosi i'r elastigeddau amrywio.
 - Deall sut y gall elastigeddau amrywio yn dibynnu ar y boblogaeth o ddiddordeb.
 - Nodi tystiolaeth o amrywiadau yn y cynllun treth neu ardoll ar ymatebion cyflenwad neu alw.

² Mae'r set lawn o gwestiynau ymchwil ar gael yn Atodiad A.


- Nodi bylchau tystiolaeth yn ymwneud â'r uchod.

2.5 Roedd y protocol (i) yn amlinellu'r meini prawf cynhwysiant ar gyfer yr ACD, yn diffinio pa wledydd sydd o fewn y cwmpas, a pha mor ddiweddar yr oedd angen i gyhoeddiadau fod i gael eu cynnwys, (ii) yn amlinellu'r strategaeth chwilio gan ddiffinio pa dermau chwilio fyddai'n cael eu defnyddio, pa gronfeydd data oedd i'w chwilio, a sut roedd cofnodion i'w cadw, a (iii) diffinio'r perthnasedd a'r sgorio ansawdd a ddefnyddiwyd i farnu ansawdd y dystiolaeth. Roedd y cronfeydd data a'r llyfrgelloedd ar-lein a chwiliwyd yn cynnwys JSTOR, Science Direct, SAGE, RePEc IDEAS, Google scholar, a RePEc EconPapers.

Gweithredu'r protocol ACD

- 2.6 Arweiniodd gweithrediad y strategaeth chwilio at gael "rhestr chwilio" gychwynnol o 777 o bapurau academaidd, adroddiadau, a llyfrau. Er mwyn cyrraedd y "rhestr ddarllen" derfynol o bapurau a ddarllenwyd yn fanwl, dilynwyd y weithdrefn a ddisgrifir yn Nhabl 1.
- 2.7 Crynhowyd canfyddiadau'r astudiaethau rhestr ddarllen mewn Taflen Echdynnu Ymchwil (RES). Ar wahân i deitl yr astudiaethau, yr awduron, a'r flwyddyn gyhoeddi, llenwyd y RES â gwybodaeth am y math o elastigeddau a fesurwyd ym mhob astudiaeth, y wlad neu'r rhanbarth ffocws, y dull methodolegol, crynodeb o'r canfyddiadau allweddol, a'r amcangyfrifon a echdynnwyd o'r elastigeddau a archwiliwyd. Yn olaf, defnyddiwyd system sgorio ansawdd i asesu pob astudiaeth o ran hygredd, dull methodolegol, a pherthnasedd i amcanion y prosiect.

Ffigur 1: Gweithredu'r protocol ACD



Synthesis o ganfyddiadau allweddol

2.8 Roedd cam olaf yr ACD yn cynnwys cyfosod canfyddiadau allweddol a dynnwyd o'r adolygiad llenyddiaeth. Yr allbwn hwn yw'r adroddiad presennol sy'n crynhoi'r mewnwelediadau mwyaf defnyddiol ac yn trafod yn benodol gryfderau a chyfyngiadau'r dystiolaeth a nodwyd. Arfarnwyd y dystiolaeth a adolygwyd yn feirniadol er mwyn cysondeb cyffredinol, gan nodi'r bylchau yn y dystiolaeth, a

defnyddiwyd y wybodaeth a gafwyd i ddod i gasgliadau gwybodus ar yr elastigeddau sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru.

Heriau a chyfyngiadau

- 2.9 Roedd y dystiolaeth a adolygwyd yn yr ACD hwn yn dangos nifer o gyfyngiadau a oedd yn ei gwneud yn anodd dod i gasgliadau cadarn ar faint tebygol yr elastigeddau sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru.
- 2.10 Roedd astudiaethau'n amrywio ar draws llawer o agweddau gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):
- Dulliau methodolegol – roedd astudiaethau'n rhychwantu ystod o fethodolegau meintiol, gyda phob un yn defnyddio set unigryw o dybiaethau. Her allweddol a wynebwyd gan ymchwilwyr oedd ynysu effaith paramedrau allweddol – gan gynnwys prisiau a lefelau incwm – ar y galw twristaidd, o ystyried yr amrywiaeth o ffactorau a allai fod yn ystumio ond a all hefyd fod yn ddylanwadol. Roedd y methodolegau a adolygwyd yn yr ACD hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r her hon gyda lefelau amrywiol o drylwyredd dadansoddol, gyda'r meini prawf asesu ansawdd a fabwysiadwyd yn yr ACD yn blaenoriaethu'r astudiaethau y barnwyd eu bod fwyaf cadarn yn fethodolegol.
 - Diffiniadau o baramedrau allweddol – defnyddiwyd ystod anghyson o fesurau gwahanol ar draws astudiaethau i amcangyfrif elastigeddau, gyda gwahanol ddiffiniadau a ffynonellau data yn cael eu defnyddio ar gyfer paramedrau allweddol megis galw twristaidd (er enghraifft, nifer yr ymwelwyr, gwariant y twristiaid), incwm, a phrisiau. O ran gwariant, roedd union natur y gwariant twristiaid a fesurwyd yn aml yn amwys.
 - Ffynonellau data – defnyddiodd astudiaethau amrywiaeth eang o ddata yn rhychwantu gwahanol gyfnodau amser, awdurdodaethau o ddiddordeb, a mathau (e.e., arolygon macro-economaidd, hydredol ac ati).
- 2.11 Roedd yr amrywiaeth yn y dulliau a ddefnyddiwyd o fewn y sylfaen dystiolaeth i amcangyfrif elastigeddau yn ei gwneud yn anodd cymharu canlyniadau ar sail tebyg wrth debyg. Yn y pen draw, roedd hyn yn cyfyngu ar allu'r astudiaeth hon i nodi tueddiadau clir mewn amcangyfrifon elastigeddau ar draws ymholiadau o

ddiddordeb (e.e., yn gyffredinol, nid oedd yn bosibl gwneud cymariaethau rhesymol o amcangyfrifon elastigeddau ar draws astudiaethau lluosog ar gyfer gwahanol fathau o awdurdodaeth neu ymwelwyr â lefelau incwm amrywiol). Serch hynny, lle'r oedd astudiaethau unigol yn rhoi amcangyfrifon lluosog, gellid gwneud rhywfaint o gymhariaeth.

- 2.12 Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth o elastigeddau yng nghyd-destun Cymru, tynnodd yr ACD ar dystiolaeth o awdurdodaethau y barnwyd eu bod yn gymaradwy, er nad oes unrhyw sicrwydd y gellir cyffredinoli'r canlyniadau hyn i gyd-destun ardoll ymwelwyr yng Nghymru.
- 2.13 Yn gyffredinol, er bod yr ACD yn blaenoriaethu'r astudiaethau mwyaf methodolegol gadarn, argymhellir bod yr amcangyfrifon a'r casgliadau a dynnir o'r canfyddiadau a gynhwyswyd yn yr astudiaeth hon yn cael eu trin yn ofalus, o ystyried yr ansicrwydd cynhenid o ran gwir faint pob elastigedd, ac i ba raddau y gellir cyffredinoli'r canfyddiadau yng nghyd-destun ardoll ymwelwyr yng Nghymru.

3. Canfyddiadau

Elastigedd pris galw

- 3.1 Mae'r elastigedd pris galw (PED) yn mesur ymatebolrwydd y galw am nwydd neu wasanaeth pan fydd ei bris yn newid. Fe'i diffinnir fel y ganran newid yn y maint y gelwir amdano wedi'i rannu â'r ganran newid yn y pris. Byddai PED o -0.5 felly yn awgrymu bod cynnydd o 1 y cant ym mhpris nwydd neu wasanaeth yn arwain at ostyngiad o 0.5 y cant yn y galw. Mae arwydd negyddol ar gyfer PED yn dynodi gostyngiad yn y maint y gelwir amdano pan fydd prisiau'n cynyddu, ac i'r gwrthwyneb. Yn ogystal, pan fo gwerth absoliwt y PED yn fwy nag 1, mae'r newid canrannol yn y galw yn fwy na chanran newid yn y pris (galw elastig). Mae gwerth absoliwt sy'n llai nag un yn dynodi galw anelastig.
- 3.2 O'r 33 o bapurau ar y rhestr fer a'r papurau a archwiliwyd, roedd 21 yn cynnwys amcangyfrifon yn ymwneud â'r PED ar gyfer twristiaeth i mewn ac roedd 3 yn cynnwys amcangyfrifon PED ar gyfer twristiaeth allan yn eu hardaloedd ffocws. Roedd rhai astudiaethau'n canolbwyntio ar wledydd penodol a grwpiau o wledydd, tra bod eraill yn canolbwyntio ar nodweddion penodol o fewn gwledydd sy'n denu twristiaid (e.e. coedwigoedd, afonydd, ac ati). Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau methodolegol i amcangyfrif elastigeddau, yn amrywio o arolygon i ddadansoddiadau empirig helaeth, gyda'r mwyafrif yn rhyw fath o ddadansoddiad atchweliad neu fodolau a yrrir gan ddata empirig. Roedd nifer fach o astudiaethau wedi ystyried grwpiau mwy o wledydd, gan goladu amcangyfrifon ar draws llawer o wledydd; roedd y rhain yn cynnwys adolygiad systematig a meta-ddadansoddiad. Cyfartaledd yr amcangyfrifon canol-ystod o'r astudiaethau a adolygwyd oedd -0.9, a fyddai'n awgrymu bod y galw gan dwristiaeth ychydig yn anelastig.
- 3.3 Mae meta-ddadansoddiad Peng et al. (2015) yn ffynhonnell amlwg o amcangyfrifon yn ymwneud â'r PED ar gyfer twristiaeth ryngwladol. Cyfunodd yr astudiaeth amcangyfrifon o 195 o ffynonellau a gyhoeddwyd yn ystod y pum degawd diwethaf a chyfeirir yn helaeth ati yn y llenyddiaeth a adolygwyd. Canfu'r awduron fod y ffactorau sy'n dylanwadu ar faint yr amcangyfrifon PED yn cynnwys (i) gwlad wreiddiol yr ymwelwyr, (ii) y gyrchfan, (iii) y cyfnod teithio, (iv) y dull a ddefnyddiwyd i amcangyfrif yr elastigedd, (v) amllder y data a maint y sampl. Ar gyfer cyrchfannau

Ewropeaidd, canfuwyd bod y PED cyfartalog ar gyfer twristiaeth i mewn yn amrywio rhwng $(-1.37)^3$ a (-0.75) yn dibynnu ar ffynhonnell yr ymwelydd,⁴ tra'r amcangyfrifwyd y PED cyffredinol ar gyfer twristiaeth ryngwladol yn (-1.28) .

- 3.4 Hefyd, canfu Peng et al. (2015) bod amcangyfrifon PED yn dibynnu ar y math o dwristiaeth (e.e., busnes, hamdden ac ati) a bod nwyddau a gwasanaethau twristiaeth gwahanol (e.e. llety a chludiant) yn gallu dangos elastigeddau gwahanol. Amcangyfrifodd yr astudiaeth PED cyfartalog ar gyfer llety twristiaid o (-0.73) , gan awgrymu bod y galw am lety gan dwristiaid rhyngwladol gydag ymatebolrwydd cymharol isel i newidiadau mewn pris o gymharu â mathau eraill o wariant twristiaid.
- 3.5 Cynhaliodd Martins, Gan a Ferreira-Lopes (2017) astudiaeth empirig yn dadansoddi data o 218 o wledydd i amcangyfrif dylanwad ffactorau macro-economaidd ar y galw rhyngwladol am dwristiaeth. Defnyddiodd yr astudiaeth dair manyleb model econometrig, pob un yn defnyddio gwahanol fesurau ar gyfer cyfrifo'r galw am dwristiaeth (h.y., twristiaid yn cyrraedd, gwariant gwirioneddol fesul cyrhaeddiad, a gwariant gwirioneddol fesul GDP), gan ganfod bod ffactorau sy'n gostwng prisiau cymharol (h.y., dibrisiant yr arian cyfred cenedlaethol neu ostyngiad mewn prisiau domestig cymharol o gymharu â thramor) yn cynyddu'r galw am dwristiaeth. Canfuwyd bod gwerth PED yn amrywio yn dibynnu ar y mesur a ddefnyddir ar gyfer y galw twristiaid, gyda gwerthoedd yn amrywio rhwng (-0.33) a (-0.08) a bod y galw yn fwyaf ymatebol i bris pan yn mesur galw gan ddefnyddio twristiaid yn cyrraedd.
- 3.6 Mewn astudiaeth empirig yn dadansoddi data o ystod eang o 191 o wledydd ledled y byd, defnyddiodd Rosselló-Nadal a HE (2020) (i) ymwelwyr rhyngwladol yn cyrraedd, (ii) gwariant twristiaid, a (iii) gwariant cyfartalog fesul twrist, fel mesurau o alw twristiaid. Yr amcangyfrifon PED o'r astudiaeth ar gyfer cynnyrch twristiaeth rhyngwladol i mewn oedd (-0.02) , (-0.07) , a (-0.06) , ar gyfer pob un o'r mesurau galw twristiaid, yn y drefn honno. Yn debyg i'r canlyniadau gan Martins, Gan a Ferreira-Lopes (2017), mae hyn yn tynnu sylw at sut y gall defnyddio gwahanol fesurau o alw twristiaid esgor ar ganlyniadau gwahanol.

³ Adroddir pob amcangyfrif hyd at ddau bwynt degol.

⁴ Yn fwy penodol, (-1.37) ar gyfer ymwelwyr Americanaidd, (-1.21) ar gyfer ymwelwyr Ewropeaidd, a (-0.75) ar gyfer ymwelwyr Ynysoedd y De.

- 3.7 Dadansoddodd Gunter a Smeral (2016) a Balcilar, Aghazadeh ac Ike (2021) y galw gan dwristiaid ar gyfer 32 o wledydd yr OECD, gan ddefnyddio dadansoddiad atchweliad a dulliau modelu eraill i lunio ystod o amcangyfrifon PED. Dadansoddodd Gunter a Smeral (2016) PEDs o (-0.74) a (-0.28) i gyrchfannau yng Ngogledd Ewrop a Chanolbarth/Gorllewin Ewrop, yn y drefn honno. Ymchwiliodd Balcilar, Aghazadeh ac Ike (2021) y PEDs allan o ran twristiaeth gwledydd yr OECD, gan ganfod bod y galw gan dwristiaid ychydig yn fwy ymatebol yn y tymor hir o gymharu â'r tymor byr. Roeddent hefyd yn ceisio gwahaniaethu rhwng elastigeddau tymor byr a thymor hir. Yn y tymor byr, amcangyfrifodd yr astudiaeth fod y PED ar gyfer twristiaeth allan yn (-1.3), (-0.80), a (-0.68) yn dibynnu ar y fanyleb model a ddefnyddiwyd, o gymharu ag amcangyfrifon tymor hir o (-1.56), (-0.88), a (-0.83).
- 3.8 Gan ddefnyddio dull System Galw Bron yn Ddelfrydol (AIDS)⁵, amcangyfrifodd Divisekera (2016), fod y PED twristiaeth (gwariant) o'r Unol Daleithiau i'r DU yn (0.92).⁶ Amcangyfrifodd yr astudiaeth hefyd fod y PED ar gyfer trafndiaeth i'r DU o'r Unol Daleithiau yn (-0.62), gan awgrymu bod trafndiaeth ychydig yn llai ymatebol i newidiadau mewn pris na gwariant ehangach ar nwyddau a gwasanaethau twristiaeth.
- 3.9 Astudiaethau empirig eraill a roddodd amcangyfrifon perthnasol o PED oedd Seetaram, Forsyth a Dwyer (2016), Pham, Nghiem a Dwyer (2017), Stettler (2017), Zervas, Proserpio a Byers, (2017), Falk a Lin (2018), Gunter ac Önder (2018), Emili, Figini a Guizzardi (2020),⁷ Gunter, Önder a Zekan (2020), Petricek, Chalupa a Chadt, (2020), Fleissig (2021a), a Fleissig (2021b), tra bod Button (2022) wedi defnyddio dull arbrofol i fesur elastigedd pris.⁸ Roedd yr amcangyfrifon PED o'r astudiaethau hyn yn amrywio o (-6.4) i (0.0).

⁵ Mae dulliau AIDS yn fodolau galw a ddefnyddir gan economegwyr i astudio ymddygiad defnyddwyr, ac maent wedi cael eu defnyddio'n helaeth mewn ymchwil i dwristiaeth.

⁶ Hefyd ymchwiliodd Divisekera (2016) i elastigeddau'r galw am dwristiaeth a thrafnidiaeth o'r UDA i Awstralia a Seland Newydd, ac o'r DU tuag at y tair gwlad hyn.

⁷ Y wlad ffocws yn y papur hwn yw'r Eidal, gwlad na ellir ei chymharu yn ôl y protocol ACD. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad oherwydd bod yr astudiaeth hefyd yn archwilio ardaloedd yn yr Eidal nad ydynt yn cael eu hystyried yn gyrchfannau 'môr a haul' ond yn hytrach rhai 'busnes' a 'diwylliannol' (h.y., ardaloedd Milan a Fflorens).

⁸ Fodd bynnag, roedd elastigedd mesuredig Button (2022) yn ymdrin â'r galw am weithiau celf wedi'u fframio (a brynir fel cofroddion fel arfer), yn hytrach na'r galw am lety neu ymwelwyr yn cyrraedd. Roedd yr amcangyfrifon yn amrywio rhwng (-3.27) a (-1.76).

- 3.10 Yn fwy penodol, archwiliodd astudiaethau Zervas, Proserpio a Byers (2017), Gunter ac Önder (2018), a Gunter, Önder a Zekan (2020) yr elastigeddau yng nghydestun llwyfannau economi a rennir,⁹ fel Airbnb, gan ymchwilio i sut mae marchnadoedd o'r fath wedi dylanwadu ar y farchnad ar gyfer llety twristiaid. Roedd yr amcangyfrifon o gynnyrch PED o'r astudiaethau hyn yn amrywio o (-0.69) i (0.2).¹⁰ Canfu Gunter ac Önder (2018), a Gunter, Önder a Zekan (2020) bod marchnadoedd Airbnb yn Fienna ac yn Efrog Newydd yn anelastig o ran prisiau, gyda'r galw yn yr ardaloedd hyn yn cael ei ddylanwadu gan ffactorau a oedd yn gynnwys maint y rhestriad, nifer y lluniau, ac ymatebolrwydd y gwesteiwr, tra gall llety traddodiadol a rhestrau llety cyfagos weithio fel amnewidion. Canfu Zervas, Proserpio a Byers (2017) bod y galw am westai pris is yn fwy ymatebol i'r galw am lety ar llwyfannau a rennir, gydag ymatebolrwydd prisiau hefyd yn uwch yn ystod cyfnodau o alw brig.
- 3.11 Roedd astudiaethau Stettler (2017) a Falk a Lin (2018) yn canolbwyntio ar dwristiaeth i mewn yn y Swistir. Roedd amcangyfrifon o PED yn amrywio'n sylweddol ar draws yr astudiaethau, gyda'r astudiaeth flaenorol yn canfod PED cyfartalog o (-0.74) a (-0.97) yn dibynnu ar y farchnad ffynhonnell, a'r astudiaeth olaf yn canfod ystod PED o tua 0 i (-5) rhwng 2000 a 2015.
- 3.12 Amcangyfrifodd Seetaram, Forsyth a Dwyer (2016) a Pham, Nghiem a Dwyer (2017) y PED ar gyfer twristiaeth allan ac i mewn yn Awstralia. Amcangyfrifodd Seetaram, Forsyth a Dwyer (2016) bod y PED ar gyfer twristiaeth allan yn amrywio rhwng (-1.07) a (0.00). Ar y llaw arall, archwiliodd Pham, Nghiem a Dwyer (2017), yr ysgogwyr i ymwelwyr Tsieineaidd i Awstralia, gan roi amcangyfrifon sylweddol uwch, gyda'r PED ar gyfer twristiaeth Tsieineaidd yn Awstralia yn (-4.4) a (-6.4) yn y tymor byr a'r tymor hir, yn y drefn honno.
- 3.13 Amcangyfrifodd astudiaethau Fleissig (2021a), a Fleissig (2021b) y PED a YED o chwe is-ddiwydiant twristiaeth yn UDA (h.y., trafniadaeth awyr, bwyd a diod, hamdden ac adloniant, siopa, llety teithwyr, a nwyddau eraill sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth). Roedd eu hamcangyfrifon PED yn amrywio o (-1.86) i (-0.2), gydag

⁹ Gelwir y rhain hefyd yn farchnadoedd cyfoedion-i-cyfoedion.

¹⁰ Roedd ZERVAS, PROSERPIO and BYERS (2017) yn ffocysu ar Tecsas, UDA, Gunter ac Önder (2018) ar Fienna, Awstria, a Gunter, Önder a Zekan (2020) ar ddinas Efrog Newydd, UDA.

amcangyfrif PED llety Fleissig (2021a) yn amrywio o (-0.4) i (-1.4), ac amcangyfrif canolig Fleissig (2021a) yn (-0.68).

- 3.14 Yn gyffredinol, cyfrifwyd amcangyfrifon elastigeddau ar y lefel genedlaethol, er mai prin oedd yr enghreifftiau o amcangyfrifon is-genedlaethol. Archwiliodd astudiaethau Borzykowski, Baranzini a Maradan (2017), Grilli et al. (2018), Tomáš (2019), Opstad, Hammervold ac Idsø (2021), a Díez-Gutiérrez a Babri (2022) y PED ar gyfer twristiaeth fewnol mewn rhanbarthau penodol iawn, gan gynnwys cyrchfannau natur fel coedwigoedd, afonydd, meysydd gwerysyla a mynyddoedd. Roedd yr amcangyfrifon PED o'r astudiaethau hyn yn amrywio rhwng (-1.91) a (0.08), yn dibynnu ar y rhanbarth a ystyriwyd yn yr astudiaeth a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Yn achos Díez-Gutiérrez a Babri (2022), canfuwyd hefyd fod y PED yn gostwng yn sylweddol wrth i bris y nwydd neu wasanaeth twristiaid sylfaenol gynyddu. Nid oedd canlyniadau'r astudiaethau hyn yn rhoi unrhyw fewnwelediad i sut y gallai elastigeddau is-genedlaethol fod yn wahanol i elastigeddau ar lefel genedlaethol.
- 3.15 Yn olaf, rhoddodd astudiaeth Kusumah (2018) amcangyfrifon PED ar gyfer y galw yn yr UE, UDA ac Awstralia am dwristiaeth allan – pob un o'r prif farchnadoedd ffynhonnell ar gyfer twristiaeth i mewn i Gymru – gydag amcangyfrifon yn amrywio rhwng (-0.01) a (-1.29).¹¹

Elastigedd pris cyflenwad

- 3.16 Mae elastigedd pris cyflenwad (PES) yn mesur faint mae'r swm o nwydd neu wasanaeth a gyflenwir yn newid mewn ymateb i'w bris. Mae PES positif yn dynodi cynnydd yn y maint a gyflenwir pan fydd ei bris yn cynyddu, ac i'r gwrthwyneb. Mae gwerthoedd PES sy'n fwy nag 1 yn dynodi cyflenwad elastig a gwerthoedd llai nag 1 yn dynodi cyflenwad anelastig.
- 3.17 Prin oedd y dystiolaeth a gafwyd yn yr ACD ynghylch PES nwyddau a gwasanaethau twristiaeth, gyda'r strategaeth chwilio gychwynnol yn nodi dim ffynonellau gydag amcangyfrifon o PES. Nodwyd bwlch tystiolaeth o ran amcangyfrifon o PES hefyd yn Chen et al. (2021).¹²

¹¹ Yn ôl adroddiad llywodraeth Cymru [Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-25](#)

¹² Trafodir yr adolygiad hwn yn yr adran ddilynol ar ganfyddiadau o'r llenyddiaeth lwyd.

Elastigedd incwm galw

- 3.18 Mae elastigedd incwm galw (YED) ar gyfer twristiaeth yn mesur ymatebolrwydd galw twristaidd (allan neu i mewn) i newidiadau mewn incwm ymwelwyr. YED yw'r ganran newid yn y maint y gelwir amdano wedi'i rannu â'r newid canrannol mewn incwm. Mae YED positif yn bodoli ar gyfer nwyddau a elwir yn "normal" sy'n golygu y byddai'r galw yn cynyddu pan fydd yr incwm yn cynyddu. Gall nwyddau normal fod yn "bethau angenrheidiol" neu'n "nwyddau moethus". Mae gan bethau angenrheidiol werthoedd galw anelastig a YED o rhwng 0 a 1, tra bod nwyddau moethus yn dangos gwerthoedd galw elastig a YED sy'n fwy nag 1. Ar gyfer nwyddau ag YED negyddol, mae'r galw yn lleihau pan fydd incwm yn cynyddu, ac fe'u gelwir yn "nwyddau israddol".
- 3.19 O'r papurau academiaidd ar y rhestr fer, rhoddodd 23 amcangyfrifon o'r YED ar gyfer twristiaeth ryngwladol. Roedd gorgyffwrdd sylweddol â'r llenyddiaeth ar gyfer PED, gyda llawer o astudiaethau, fel yr astudiaethau a grybwyllwyd uchod, Peng et al. (2015) a Martins, Gan a Ferreira-Lopes (2017), yn rhoi amcangyfrifon o YED a PED.
- 3.20 Amcangyfrifodd Peng et al. (2015) ystod YED o rhwng 1.27 a 2.40 yn dibynnu o ba gyfandir y daeth yr ymwelydd,¹³ gyda'r YED cyffredinol ar gyfer twristiaeth ryngwladol yn cael ei amcangyfrif yn 2.53. Yn gyffredinol, canfuwyd bod yr YED ar gyfer llety yn sylweddol is nag ar gyfer twristiaeth yn ehangach, gydag amcangyfrif cyfartalog o 1.17 yn gwirio bod y galw am lety yn gyffredinol yn llai ymatebol i newidiadau mewn pris neu incwm na nwyddau a gwasanaethau twristaidd eraill.
- 3.21 Roedd amcangyfrifon YED Martins, Gan a Ferreira-Lopes (2017) yn amrywio o 0.43 i 1.15, gyda'r amcangyfrif isaf yn cael ei gynhyrchu trwy ddefnyddio gwariant rea fesul ymwelwyr yn cyrraedd (mewn doleri UDA) fel mesur ar gyfer galw twristaidd, a'r amcangyfrif uchaf yn cael ei gynhyrchu trwy ddefnyddio'r gwariant real (mewn Ewros) fesul ymwelwyr yn cyrraedd fel mesur. Canfuwyd felly bod arwyddion yr amcangyfrifon yn gadarnhaol, yn unol â theori economaidd, ond nid oedd y casgliadau'n glir p'un a oedd twristiaeth yn nwydd moethus.¹⁴

¹³ Yn fwy penodol, 1.27 ar gyfer ymwelwyr Ynysoedd y De, 1.81 ar gyfer ymwelwyr Americanaidd, a 2.4 ar gyfer ymwelwyr Ewropeaidd.

¹⁴ Pan fydd incwm yn cynyddu, mae canran y defnydd o nwydd moethus yn cynyddu mwy nag 1 am 1.

- 3.22 Hefyd canfu Rosselló-Nadal a HE (2020) amcangyfrifon YED positif gyda'r canlyniadau'n amrywio, yn dibynnu ar y mesur o alw twristaidd a fabwysiadwyd: (i) wrth ddefnyddio gwariant fel mesur o'r galw am dwristiaeth, cafwyd YED o 0.42, (ii) wrth ddefnyddio cyraeddiadau cyfanredol fel mesur o'r galw, cafwyd YED o 0.57, a (iii) wrth ddefnyddio gwariant cyfartalog fesul twrist fel y mesur o'r galw, cafwyd yr amcangyfrif YED uchaf o 0.99.
- 3.23 Roedd amcangyfrifon YED Gunter a Smeral (2016) yn 0.56 ar gyfartaledd i gyrchfannau yng Ngogledd Ewrop a 0.23 i gyrchfannau yng Nghanol/Gorllewin Ewrop. Rhoddodd canfyddiadau Balcilar, Aghazadeh ac Ike (2021) ganlyniadau a oedd yn sylweddol fwy o ran maint yn y tymor byr a'r tymor hir. Yn y tymor byr, yn dibynnu ar y fanyleb fodel a ddefnyddiwyd, canfuwyd bod yr YED ar gyfer twristiaeth allan naill ai'n 1.28, 1.01, a 0.75, ac yn y tymor hir yr amcangyfrifon oedd 0.79, 1.14, a 0.98. Yn wahanol i'r canlyniadau ar gyfer PED, mae'r graddau y mae'r galw twristaidd yn fwy ymatebol i incwm yn y tymor hir yn amwys.
- 3.24 Canfu Divisekera (2016) bod galw'r Unol Daleithiau am dwristiaeth i'r DU, fel y'i mesurir gan wariant twristiaid, yn elastig o ran gwariant (1.26), sy'n awgrymu bod y newid cymesur yn y galw yn fwy na'r cynnydd cymesur cyfatebol mewn incwm (h.y., byddai cynnydd incwm o 1 y cant (wedi'i fesur o ran cyfanswm gwariannau) yn arwain at gynnydd o 1.26 y cant mewn gwariannau ar dwristiaeth). Mewn cyferbyniad, canfuwyd bod yr YED ar gyfer trafndiaeth yn 0.67, sy'n awgrymu bod y galw twristaidd yn fwy elastig o ran gwariant a phris na'r galw am wasanaethau trafndiaeth i'r DU.¹⁵
- 3.25 Cynhaliodd Waqas-Awan, Rosselló-Nadal a Santana-Gallego (2021) astudiaeth a archwiliodd sut y gall lefel incwm personol effeithio ar elastigedd incwm y galw twristaidd, wedi'i fesur yn nhermau ymwelwyr rhyngwladol yn cyrraedd. Cafodd yr awduron ganlyniadau ar gyfer gwahanol fanylebau o fodel disgyrchiant,¹⁶ gan ddefnyddio data blynyddol o 1995 i 2016 ar y llif twristiaeth dwyochrog rhwng 192 o wledydd. Mae'r canfyddiadau'n dilysu'r ddamcaniaeth bod yr unigolion cyfoethocaf

¹⁵ Mae elastigedd gwariant galw yn mesur faint y mae'r galw am nwydd yn newid mewn ymateb i newid yng nghyfanswm gwariant defnyddwyr. Gellir ystyried lefel y gwariant yn fesur o incwm; felly, gellir ystyried elastigedd gwariant y galw fel ffurf ar YED.

¹⁶ Mae modelau disgyrchiant yn darparu fframwaith greddfoll sy'n archwilio penderfynyddion llif fel masnach, mudo a chyfalaf rhwng gwledydd. Gall modelau disgyrchiant ddeillio'n hawdd o fodelau damcaniaethol, ac fe'u hystyrir yn ddull credadwy ar gyfer astudiaethau twristiaeth.

a thlotaf yn tueddu i ymateb yn llai (o ran niferoedd ymwelwyr) i newidiadau yn eu hincwm, o gymharu ag unigolion dosbarth canol. Gan ddefnyddio GDP y pen fel mesur o gyfoeth unigol, amcangyfrifodd yr astudiaeth YED o 0.59 a 0.45 i wledydd incwm isel, neu (-0.05) neu 0.15 i wledydd incwm uchel, o gymharu ag amcangyfrif sylweddol uwch o 0.78 neu 1.1 i wledydd incwm canolig. Canfuwyd bod yr YED cyfartalog ar draws yr holl wledydd o gwmpas 1.0.

- 3.26 Rhoddodd astudiaethau Smeral (2018) a Smeral (2019) fewnwelediad i sut y gall yr YED ar gyfer twristiaeth allan amrywio nid yn unig trwy gylchoedd busnes,¹⁷ ond hefyd yn dymhorol. Defnyddiodd Smeral (2018) dechnegau modelu galw twristaidd i nodi amrywiadau cylchol yn y galw am dwristiaeth, gan ganolbwyntio ar ddata o Ganada, 15 gwlad yr UE, ac UDA. Darganfuwyd tystiolaeth o amcangyfrifon cyfnewidiol YED ar gyfer twristiaeth, gydag amcangyfrifon YED yn amrywio o 0.51 i 5.52 yn dibynnu ar gam y cylch busnes a'r tymor. Ar gyfer Canada ac UDA, canfuwyd bod amcangyfrifon YED yn gyson is yn ystod y dirywiad economaidd, ond ar gyfer YED yr UE, canfuwyd ei fod yn uwch yn ystod dirywiad economaidd. Priodolodd yr awdur y canfyddiadau ar gyfer yr UE i'r amharoddrwydd i golli defnyddwyr a'r ansicrwydd a achoswyd gan yr argyfwng economaidd. Canfu'r awduron hefyd amrywiad mewn YED ar draws chwarteri a gwledydd, er na ddarganfuwyd patrwm clir.
- 3.27 Archwiliodd papur Smeral (2019) natur dymhorol YED yn fwy manwl yng nghydestun gwella rhagolygon galw twristaidd. Cymhwysodd yr awdur ddwy fersiwn wahanol o fodel galw twristaidd i gynhyrchu'r amcangyfrifon canlynol ar gyfer YED i Ganada, 15 UE, ac UDA, gan ddod o hyd i amrywiad sylweddol mewn YED yn dibynnu ar y tymor (e.e., canfuwyd bod YED ar ei uchaf ar gyfer 15 UE yn y ddau chwarter olaf o'r flwyddyn).
- 3.28 Amcangyfrifodd Gunter, Önder a Zekan (2020) yr YED ar gyfer llety yn ninas Efrog Newydd, gan roi ystod o ganlyniadau o 1.31 i 4.9 yn dibynnu ar yr ardal a'r math o lety a gynigiwyd. Mae'r canfyddiadau hyn, felly, yn canfod bod llety yn Efrog

¹⁷ Y cylchoedd busnes mewn economi yw'r cyfnodau o ehangu economaidd a ddilynir fel arfer gan ddirwasgiad mewn gweithgaredd economaidd. Gall cylchoedd busnes amrywio o ran dwyster a hyd.

Newydd yn nwydd moethus, gyda'r galw yn newid yn gymesur yn fwy na'r newid mewn incwm ymwelwyr.

- 3.29 Canfuwyd fod amcangyfrifon Falk a Lin (2018) ar gyfer YED galw twristaidd (fel y'i mesurwyd gan ymwelwyr sy'n aros dros nos) yn y Swistir yn amrywio rhwng tua 0.8 a 1.0 rhwng 2000 a 2015. Amcangyfrifodd Pham, Nghiem a Dwyer (2017) fod yr YED ar gyfer twristiaid Tsieineaidd i Awstralia rhwng 3.8 a 5.5, tra bod canfyddiadau Emili, Figini a Guizzardi (2020) yn amrywio rhwng 0.9 a 5 i ymwelwyr o Brydain a rhwng 1 a 4 i ymwelwyr o'r Almaen.
- 3.30 Canfu Fleissig (2021a) fod yr YED yn amrywio rhwng 0.1 a 1.5, gyda'r YED ar gyfer llety yn amrywio rhwng 0.22 ac 1.1. Mae amcangyfrifon YED Fleissig (2021b) yn amrywio o 0.37 i 1.67, gyda'r YED ar gyfer llety yn 0.74 yn y tymor byr a 0.97 yn y tymor hir.
- 3.31 Archwiliodd Stråle (2021) amrywiad lefel aelwydydd yn yr YED ar gyfer teithio hamdden rhyngwladol. I'r perwyl hwn, dadansoddwyd data ar wariant lefel aelwydydd yn Sweden gan ddefnyddio dadansoddiad atchweliad a dulliau modelu eraill, gan roi amcangyfrifon ar gyfer YED a oedd yn amrywio o 0.95 i 5.71. Roedd y canfyddiadau'n awgrymu bod y galw yn fwy ymatebol i incwm ar gyfer aelwydydd a oedd yn defnyddio lefelau cymharol is o dwristiaeth yn gyffredinol.
- 3.32 Yn debyg i'r achos dros PED, rhoddodd astudiaethau Engström a Kipperberg (2015), Fredman a Wikström (2018), Tomáš (2019), ac Opstad, Hammervold ac Iidsø (2021) amcangyfrifon is-genedlaethol o YED yn ymwneud â chyrchfannau gwyliau natur mewn rhanbarthau penodol o Norwy a Gweriniaeth Tsiec – roedd y rhain yn cynnwys meysydd gwerysyla, mynyddoedd, ffiordau, a pharciau cenedlaethol. Roedd yr amcangyfrifon o'r astudiaethau hyn yn amrywio o (-0.24) i 1.45, gyda'r canlyniadau'n amrywio ar draws rhanbarthau o ddiddordeb a methodolegau ymchwil.
- 3.33 Yn olaf, archwiliodd astudiaethau Alegre a Pou (2016) a Bronner a de Hoog (2017) y galw twristaidd allan yn UDA a'r Iseldiroedd, yn y drefn honno. Dadansoddodd yr astudiaethau hyn ddata o arolygon lefel genedlaethol, gan gynnwys ymatebion i gyfres o gwestiynau damcaniaethol ar hoffterau o wahanol fathau o wyliau, er mwyn deall ymatebolrwydd y galw twristaidd i newidiadau mewn incwm ymwelwyr. Roedd

amcangyfrifon YED Alegre a Pou (2016) yn amrywio o 0.12 i 2.74. Er na wnaeth Bronner a de Hoog (2017) gyrraedd amcangyfrifon penodol ar gyfer YED, canfuwyd bod YED naill ai'n elastig neu'n anelastig yn dibynnu ar y math o deithio; ar gyfer teithiau dydd a gwyliau byr roedd YED fel arfer yn elastig, ond ar gyfer prif wyliau'r haf roedd yn anelastig, gan awgrymu bod y galw am wyliau hirach fel arfer yn llai ymatebol i newidiadau mewn incwm nag ar gyfer gwyliau byrrach. Mewn astudiaeth empirig yn amcangyfrif YED ar gyfer marchnadoedd twristiaeth Awstralia, yr Undeb Ewropeaidd (UE), ac UDA, canfu Kusumah (2018) werthoedd YED yn amrywio rhwng 0.74 (UE) ac 1.73 (UDA).

Elastigedd galw traws-bris

- 3.34 Mae elastigedd galw traws-bris (XED) yn mesur y newid yn maint y galw am nwydd mewn ymateb i'r newid ym mhpris nwydd arall. Er enghraifft, byddai XED o (-1) rhwng dau nwydd yn awgrymu y byddai cynnydd o 1 y cant ym mhpris Nwydd x yn lleihau maint y galw am Nwydd y o 1 y cant. O'r herwydd, mae XED yn debyg i PED, ond mae'n dangos y berthynas rhwng pâr o nwyddau neu wasanaethau gwahanol. Mae XED negatif yn dynodi "nwyddau cyflenwol" sydd fel arfer yn cael eu defnyddio gyda'i gilydd, tra bod XED positif yn dynodi "amnewidion" sy'n cael eu defnyddio'n gyfnewidiol.
- 3.35 Cymharol ychydig o astudiaethau a nododd yr ACD sy'n rhoi amcangyfrifon o XED yn ymwneud â thwristiaeth, gyda dim ond pump o'r papurau academaidd a archwiliwyd yn rhoi amcangyfrifon perthnasol. Yn nodweddiadol, archwiliodd yr astudiaethau hyn yr effaith ar y galw am wahanol gategorïau o nwyddau a gwasanaethau twristiaeth (gan gynnwys llety, trafnidiaeth a siopa) yn dilyn newid mewn prisiau cymharol.
- 3.36 Amcangyfrifodd Martins, Gan a Ferreira-Lopes (2017) y berthynas rhwng prisiau cymharol nwyddau a gwasanaethau twristiaeth amrywiol, gydag amcangyfrifon ar gyfer XED yn amrywio rhwng (-0.97) a (-0.08), sy'n awgrymu bod gwahanol nwyddau a gwasanaethau twristiaeth yn ategu ei gilydd pan fydd prisiau cymharol yn newid. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod prisiau cymharol yn ystyriaeth bwysig i ymwelwyr pan fyddant yn gwneud penderfyniadau i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau yn eu cyrchfan.

- 3.37 Mesurodd Fleissig (2021a) elastigeddau amnewidiol mewn galw (ME) Morishima ymhlith y chwe is-ddiwydiant twristiaeth a archwiliwyd.¹⁸ Mae ME yn disgrifio graddau'r amnewid rhwng dau is-ddiwydiant ar gyfer newid ym mhris is-ddiwydiant penodol. Mae ME positif yn dynodi bod yr is-ddiwydiannau yn amnewidion, tra bod ME negyddol yn dynodi cyfatebolrwydd. Amcangyfrifodd yr astudiaeth fod ME yn amrywio rhwng (-0.65) i (1.1) yn dibynnu ar y grwpiau o is-ddiwydiannau a archwiliwyd. Ar gyfer newidiadau pris mewn trafndiaeth awyr, canfuwyd bod pob is-ddiwydiant yn gyflenwol, ac eithrio gwasanaethau eraill yn ymwneud â thrafnidiaeth y canfuwyd eu bod yn amnewidion. Canfuwyd nad oedd cynnydd ym mhris siopa yn cael fawr o effaith ar bryniannau bwyd a diod gan dwristiaid, sy'n awgrymu eu bod yn cael eu hystyried yn angenrheidiol, ond roeddent yn cael effaith fawr ar y galw am llety a thrafnidiaeth awyr. Canfuwyd bod amcangyfrifon ME rhwng llety a bwyd a diodydd yn negyddol, gan awgrymu cyflenwoldeb yn newisiadau defnydd twristiaid.
- 3.38 Hefyd dangosodd canfyddiadau Fleissig (2021a) nad yw'r amnewid hwnnw rhwng is-ddiwydiannau yn gyson a'i fod yn amrywio drwy'r cylch busnes. At hynny, gall yr amcangyfrifon ME fod yn anghymesur. Er enghraifft, roedd amnewidiad rhwng trafndiaeth awyr a gwasanaethau eraill yn ymwneud â thrafnidiaeth yn dangos mwy o amnewidiadau ym mhris trafndiaeth awyr o gymharu â newidiadau pris nwyddau eraill a oedd yn ymwneud â thrafnidiaeth. Yn yr un modd, mae llawer mwy o amrywiaeth yn y berthynas gyflenwol rhwng llety a bwyd a diodydd ar gyfer newidiadau mewn prisiau llety, ond nid i'r gwrthwyneb.
- 3.39 Mae canfyddiadau Fleissig (2021b) yn cadarnhau rhai Fleissig (2021a). Roedd yr amcangyfrifon ME yn amrywio o (-0.73) i (1.35), gyda'r amcangyfrif uchaf yn ymwneud â'r XED ar gyfer trafndiaeth mewn perthynas â phris trafndiaeth awyr. Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu amnewidiad uchel ac elastig rhwng y ddau ddewis trafndiaeth hyn. Serch hynny, ni fyddai newid pris mewn dulliau trafndiaeth eraill yn achosi'r un ymateb elastig yn y galw am drafndiaeth awyr (0.74). Roedd yr amcangyfrif isaf yn ymwneud â'r XED ar gyfer llety mewn perthynas â phris

¹⁸ Mae elastigedd amnewid Morishima (ME), fel y'i mesurwyd yn (Fleissig, 2021a), yn dangos amnewid rhwng dau is-ddiwydiant ar gyfer newid ym mhris is-ddiwydiant penodol. Mae ME positif yn dynodi bod yr is-ddiwydiannau yn amnewidion, tra bod ME negyddol yn dynodi cyfatebolrwydd.

trafnidiaeth awyr, gan awgrymu cyflenwoldeb uchel (ond nid elastig) rhwng y ddau wasanaeth.

- 3.40 Ynglŷn â'r XED ar gyfer llety mewn perthynas â phrisiau'r pedwar gwasanaeth arall a archwiliwyd yn Fleissig (2021b), gwelwyd y lefel uchaf o gyflenwoldeb rhwng llety a dulliau eraill o deithio (-0.43) a rhwng llety a hamdden (-0.26). Byddai newid ym mhris bwyd a diod neu siopa yn achosi ymateb hynod anelastig yn y galw am lety, gyda'r XED hwn yn cael ei amcangyfrif yn (-0.1) a (-0.03). Ar y llaw arall, byddai newid ym mhrisiau llety yn achosi ymateb anelastig, ond sylweddol uwch, yn y galw am fwyd a diod a siopa gydag amcangyfrifon o (-0.33) a (-0.19).
- 3.41 Amcangyfrifodd Divisekera (2016) fod yr XED rhwng twristiaeth a galw am drafnidiaeth o'r Unol Daleithiau i'r DU rhwng 0.04 a 0.7, yn dibynnu ar newidiadau ym mhrisiau twristiaeth a thrafnidiaeth yn y DU, yn ogystal â phrisiau yn Awstralia a Seland Newydd. Dangosodd y canfyddiadau nad yw cynnydd ym mhris twristiaeth i mewn i'r DU yn arwain at newid sylweddol yn y galw yn yr Unol Daleithiau am deithiau i Awstralia neu Seland Newydd. Mae hyn yn awgrymu bod Awstralia a Seland Newydd yn ddewis gwael yn lle'r DU i ymwelwyr o'r Unol Daleithiau. At hynny, mae perthynas gadarnhaol rhwng gwariant twristiaeth yn y DU a'r galw am drafnidiaeth, sy'n awgrymu amnewidiolrwydd rhwng y ddau a ffafriaeth gref i dwristiaeth y DU gan ymwelwyr o'r Unol Daleithiau.
- 3.42 Roedd amcangyfrifon XED Gunter, Önder a Zekan (2020), a amcangyfrifiwyd fel newid yn y galw am ystafelloedd gwesty mewn ymateb i gynnydd ym mhris y tai a rennir yn Efrog Newydd, yn amrywio rhwng 0.11 a 0.54. Canfuwyd bod gwerth XED yn dibynnu ar y maes ffocws (Manhattan neu bob lle ar y rhestr), a'r math o restrau tai a gynhwyswyd yn y sampl (h.y., math masnachol neu breifat, a chartrefi cyfan neu ystafelloedd penodol).¹⁹ Roedd amcangyfrifon XED yn uwch pan ystyriwyd rhestrau o gartrefi cyfan neu restrau yn Manhattan yn unig.

¹⁹ Roedd yr awduron yn gwahaniaethu rhwng gwesteiwyr sy'n rhentu eu heiddo yn achlysurol a'r rhai sy'n ei rentu fel gweithgaredd masnachol.

Mathau eraill o elastigeddau

- 3.43 Cafwyd amcangyfrifon elastigedd mewn tair astudiaeth heblaw'r rhai'n ymwneud â PED, YED, XED, a PES (h.y., Engström a Kipperberg (2015), Sanchez-Rivero a Pulido-Fernández (2020), a Balcilar, Aghazadeh ac Ike (2021)).
- 3.44 Trwy ddefnyddio dadansoddiad atchweliad o wariant ymwelwyr rhyngwladol â rhanbarth-ffiordau gorllewinol Norwy, archwiliodd Engström a Kipperberg (2015), elastigedd gwariant ymwelwyr mewn perthynas â (i) hyd arhosiad ymwelwyr (LOS), a (ii) maint y parti teithio (TPS). Canfu'r astudiaeth fod elastigedd galw twristiaid mewn perthynas â LOS wedi'i amcangyfrif yn yr ystod o 0.51 i 0.68 gan awgrymu perthynas gadarnhaol, ond anelastig, rhwng gwariant twristiaid a hyd arhosiad. Canfuwyd ymhellach fod elastigedd galw twristiaid i TPS yn yr ystod o (-0.84) i 0.41, yn dibynnu a oedd cyfanswm neu wariant personol ar dwristiaeth yn cael ei ddefnyddio fel mesur y galw.
- 3.45 Rhoddodd Sanchez-Rivero a Pulido-Fernández (2020) amcangyfrif o alw-elastigedd incwm gwrthdro (IYED), yn archwilio'r berthynas rhwng ymwelwyr rhyngwladol a oedd yn cyrraedd a'r incwm a gynhrychir o dwristiaeth. Ymchwiliodd yr astudiaeth i weld a fyddai cynnydd yn nifer y twristiaid yn cyrraedd yn arwain at gynnydd cyfartal mewn incwm a gynhrychir gan dwristiaeth, gan roi amcangyfrifon IYED o tua 0.95. Roedd y canfyddiadau hyn yn awgrymu bod incwm a gynhrychir gan dwristiaeth ychydig yn anelastig, sy'n awgrymu efallai nad ymwelwyr sy'n cyrraedd yw'r mesur gorau o lwyddiant i'r diwydiant twristiaeth. Priodolodd yr awduron y cynnydd is mewn incwm o'i gymharu â'r cynnydd mewn llif twristiaid i'r lleihad yng ngwariant twristiaid ar gyfartaledd (o ganlyniad uniongyrchol i argyfwng economaidd byd-eang 2007), ac i'r gostyngiad yn yr hyd arhosiad cyfartalog yn y gyrchfan (o ganlyniad i newidiadau mewn arferion twristiaid, a oedd yn ffafrio teithiau byrrach bob blwyddyn).
- 3.46 Archwiliodd Balcilar, Aghazadeh ac Ike (2021) sut mae cyflogaeth yn effeithio ar y galw am dwristiaeth yn y tymor byr a'r tymor hir, gan reoli effeithiau incwm a phrisiau. Canfuwyd bod yr amcangyfrifon tymor byr oddeutu 0.02, ond nid oedd yr amcangyfrifon tymor hir yn ystadegol arwyddocaol. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod y galw am dwristiaeth yng ngwledydd yr OECD yn hynod anelastig o

ran cyfraddau cyflogaeth, gan briodoli'r canfyddiad hwn i ffactorau demograffig yng ngwledydd yr OECD a chylchoedd busnes cyflogaeth. Awgrymodd yr awduron y gallai enillion gostyngol i gyflogaeth, gostyngiad cyffredinol yn y gyfran incwm llafur, anghyfartaledd cynyddol o ran dosbarthiad cyflog ymhlith y boblogaeth sy'n gweithio, yn ogystal â phoblogaeth sy'n heneiddio, fod wedi cyfrannu at y ffenomen hon hefyd.

Canfyddiadau'r llenyddiaeth lwyd

- 3.47 I ategu'r dystiolaeth a geir yn y llenyddiaeth academaidd, chwiliwyd hefyd am ddogfennau polisi perthnasol ac adroddiadau gan sefydliadau, canolfannau ymchwil a sefydliadau amrywiol. Roedd y chwiliad yn canolbwyntio ar, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyhoeddiadau gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig (gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban), ynghyd ag unrhyw adroddiadau a gynhyrchwyd gan gyrff ymchwil perthnasol.
- 3.48 Un o'r ffynonellau mwyaf perthnasol a ganfuwyd yn yr ACD oedd yr Adolygiad o Dystiolaeth o Elastigeddau Perthnasol i Dwristiaeth yn yr Alban gan Chen *et al.* (2021), a gomisiynwyd gan Lywodraeth yr Alban gyda'r nod o gefnogi dealltwriaeth llunwyr polisi o ymatebolrwydd posibl ymwelwyr a busnesau i newidiadau ym mhrisiau twristiaeth. Cynhaliodd yr astudiaeth adolygiad systematig o'r llenyddiaeth sy'n amcangyfrif elastigeddau ar gyfer cyrchfannau twristiaeth sy'n berthnasol i'r Alban, gan gynnwys, ystyried amcangyfrifon o PED, YED, a PES, yn ogystal â ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar newidiadau yn y galw a'r cyflenwad o dwristiaeth. Er bod gorgyffwrdd rhannol â meta-ddadansoddiad Peng *et al.* (2015) o ran astudiaethau a gynhwysir yn yr adolygiad systematig, roedd Chen *et al.* (2021) yn ffocysu'n unig ar ymchwil mwy diweddar (ar ôl 2010) ac felly yn cynnwys llawer o astudiaethau nas ystyriwyd yn yr astudiaeth gyntaf.
- 3.49 Nododd yr astudiaeth amcangyfrifon PED ac YED o ystod eang o werthoedd, gyda'r astudiaethau hefyd yn rhychwantu ystod o wahanol fethodolegau a rhanbarthau o ddiddordeb. Adroddodd yr astudiaeth werthoedd PED ar gyfer cyrchfannau perthnasol yn amrywio o (-5.1) i 2.18 (adroddodd mwyafrif helaeth yr astudiaethau

